

Ar ddydd Mawrth 20fed Gorffennaf 2010 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyncoch am 7.00pm

PRESENNOL: Y Cyng. Trefor Davies (Cadeirydd); Mrs G Price; Mrs E Davies; R Owen; D Jones; Mrs K Walker a'r clerc

- 2829 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. DM Hughes; T Lewis; D Sheppard; DR Morgan a Melvyn Evans
- 2830 **Materion Personol** – dim
- 2831 **Datgan Buddiant Personol/Rhagfarnol** – dim
- 2832 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2010 fel cofnod cywir. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:
Cofnod 2804 Materion Prifffyrdd Trefeurig: Derbyniwyd cadarnhad gan Geredigion bod nifer o faterion a godwyd gan y Cyngor Cymuned wedi'u nodi i gael sylw.
Cofnod 2808 Ombwdsman Cymru ynghylch cynigion i sefydlu system gwynion gyffredin : Rhoddodd y Cyng. R Owen grynodedeb o'r ddogfen ymgynghori. PENDERFYNWYD peidio â chyflwyno unrhyw sylwadau.
- 2833 **Am 7.30pm, pan gyrhaeddodd y Siaradwr Gwadd Mr John Morgan, cynrychiolydd Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria, gohiriwyd Cyfarfod y Cyngor a gwahoddwyd Mr Morgan i annerch y Cyfarfod. Siaradodd am yr ardal sy'n dod dan Fynyddoedd y Cambria a nod y Gymdeithas i'w chael wedi'i dynodi'n ardal o harddwch eithriadol. Byddai hynny'n golygu ei bod yn cael rhywfaint o'r amddiffyniad a gaiff Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd SSSI. Yn dilyn y sgwrs cafwyd sesiwn holi ac ateb. Gadawodd Mr Morgan y Neuadd am 8.00pm ac ail-ddechreuodd Cyfarfod y Cyngor.**
- 2834 **Rheiliau'r Gofeb Rhyfel, Penrhyncoch:** Derbyniwyd adroddiad yn ddiweddar bod y contractwr sydd wrthi'n trwsio rheiliau'r Gofeb Rhyfel wedi gorfod mynd i'r ysbyty a bod y gweithdy wedi cau. PENDERFYNWYD cysylltu ag yswirwyr y Cyngor, Allianz Ltd i roi gwybod iddyn nhw.
- 2835 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**
CCB PATRASA 14.07.10: Adroddodd y Cyng. Mrs G Price fod aelodau'r pwyllgor yn parhau i fod yn ymroddgar a'u bod wedi gweithio'n galed trwy gydol y flwyddyn i gadw'r ardal chwarae mewn cyflwr da. Etholwyd Pwyllgor newydd ac mae hi'n parhau i fod yn Gadeirydd ar hwnnw.
CCB Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru - 14.07.10 - Aberaeron: Mynychodd Y Cyng. Richard Owen hwn a rhoddodd adroddiad cryno ar y materion a drafodwyd a'r enwebiadau i'r Pwyllgor Ardal a chyrrff allanol. Mae'r Cyng. Owen yn parhau i fod yn gynrychiolydd ar Grŵp y Prif Randdeiliaid a'r Cyng. K Walker ar y Grŵp Thematis - Dyfodol Dwyieithog.
TraCC - Trafnidiaeth Canolbarth Cymru - Asesu gwerth sefydlu gorsaf yn Bow Street - Cyfarfod 15 Gorffennaf 2010 yn Aberystwyth: Galwyd y Cyfarfod hwn ar fyr rybudd ac fe'i mynychwyd gan y Cyng. K Walker a'r clerc. Esboniodd cynrychiolwyr TraCC (Trafnidiaeth Canolbarth Cymru); y cwmni ymgynghori Capita Symonds ac Adran Drafnidiaeth Cyngor Sir Ceredigion yr ymchwil sydd angen ei wneud i weld oes 'na botensial i agor gorsaf drenau yn Bow Street fyddai'n economaidd i'w gweithredu. Mae gwerthusiadau amrywiol ar droed a gelwir cyfarfod pellach pan fydd y rhain wedi'u cwblhau erbyn diwedd Awst 2010.
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:
- 2836 **Adran Brifffyrdd Ceredigion – Cynllun Llwybr Diogel i'r Ysgol, Penrhyncoch:** Ym mis Mai 2010 ysgrifennodd y Cyngor hwn i ofyn a fyddai Ceredigion yn ystyried gweithredu un o'u cynigion blaenorol i greu system flaenoriaeth i draffig ger y Bwthyn, Penrhyncoch, gyda'r bwriad o wella diogelwch i gerddwyr yn yr ardal honno. Mewn ymateb, esboniodd Ceredigion nad oedd y tir angenrheidiol i gwblhau'r cynllun ar gael ac na allent fynd ymlaen â'r cynllun felly yn anffodus.
- 2837 **Gofal a Thrsio Ceredigion:** Manylion cyngor a chymorth sydd ar gael i drigolion Ceredigion. PENDERFYNWYD eu nodi.
- 2838 **Cyngor Sir Ceredigion:** Llythyr o werthfawrogiad gan Arweinydd y Cyngor, Keith Evans, i drigolion Ceredigion am yr addurniadau a arddangoswyd a'r croeso a roddwyd i ymwelwyr Eisteddfod yr Urdd a digwyddiadau eraill yng Ngheredigion yn 2010. PENDERFYNWYD ei arddangos.
- 2839 **Elin Jones AC:** Hysbysiad bod Llywodraeth y Cynulliad yn darparu grantiau tuag at gostau offer sicrhau cysylltiad band eang mewn mannau gwan. PENDERFYNWYD ysgrifennu i ofyn am fanylion pellach.

- 2840 **Adolygiad o Bolisi Trwyddedu CS Ceredigion:** Gwahoddiad i adolygu a gwneud sylwadau ar Bolisi Trwyddedu presennol yr awdurdod lleol. PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2841 **Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ymgynghoriad ar y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig:** PENDERFYNWYD derbyn cynrychiolaeth gan Un Llais Cymru.
- 2842 **CS Ceredigion – Archwilio Ardaloedd Chwarae:** Gwahoddiad i sefydliadau i gyflwyno enwau ardaloedd chwarae ar gyfer archwiliad annibynnol blynyddol. PENDERFYNWYD ei nodi. Mae ardaloedd chwarae o fewn y Gymuned wedi cofrestru ar gyfer archwiliad.
Hyfforddiant Archwilio Ardaloedd Chwarae: Manylion cyrsiau sydd ar gael. PENDERFYNWYD eu nodi.
- 2843 **Llythyr gan breswlydd lleol ynghylch trethi, gwasanaethau a materion amrywiol:** PENDERFYNWYD ei gydnabod.
- 2844 **Ombwdsman Cymru - Adroddiad Blynyddol 2009/10:** PENDERFYNWYD ei ddsbarthu.

Materion Ariannol

- 2845 **Archwiliad o gyfrifon y Cyngor am y chwarter yn diwedd 30 Mehefin, 2010:** Rhoddwyd crynodeb o'r derbyniadau a'r taliadau am y chwarter i bob aelod. Mae hwn yn dangos balans agoriadol o £3,057.55 + derbyniadau o £13,342.37 cyfanswm £16,399.92 – gwariant o £2,364.14 sy'n gadael balans o **£14,035.78**
Cadarnheir hyn gan ddatganiad cysoni'r banc ar 30/06/10 fel a ganlyn:
Cyfrif Cymunedol HSBC (taflen 311): £ 4,204.68 + Cyfrif Busnes M/M (taflen 113):
£10,077.63 – Cyfanswm £14,282.31; - sieciau nas cyflwynwyd (Rhifau 982; 992; 995)
£246.52 – balans **£14,035.78**. Does dim cyfrifon na newidiadau eraill.

Mae adolygiad o'r gwariant yn erbyn y gyllideb am y flwyddyn ariannol yn dangos bod y swm a gariwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2010 £150 yn llai na'r amcangyfrif pan baratowyd y gyllideb yn Ionawr 2010. Ni chafwyd unrhyw gostau nas rhagwelwyd o fewn y chwarter cyntaf ac mae'r gwariant hyd yn hyn o fewn y terfynau a osodwyd.

Cyflwynwyd yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon uchod i'r Cyngor eu gwirio.
PENDERFYNWYD derbyn y ffigyrau fel y'u dangosir.

- 2846 **Grantiau torri glaswellt llwybrau troed:** PENDERFYNWYD awdurdodi'r clerch i drefnu i strimio llwybr troed 9/41 ym Mhenbontrhydybeddau.
- 2847 **Cynhadledd a CCB 2010 Un Llais Cymru – 09/10/10:** PENDERFYNWYD y bydd Y Cyng. T Davies a D Sheppard yn cynrychioli'r Cyngor yng Nghynhadledd Un Llais Cymru.
Cytunwyd i dalu'r biliau canlynol
- 2848 **Cynhadledd Un Llais Cymru 09/10/10:** Dau gynrychiolydd @ £65 yr un: **£130** s. 996
- 2849 **Linda Griffiths** cyfieithu Mehefin 2010: **£52. 57** siec 997
- 2850 **P Walker - treuliau Ebrill/Mehefin 2010:** Postio £24.97; Milltiroedd £50.48: **£75.45** s 998
- 2851 **Y Cyng. D Sheppard** – costau teithio i gyfarfodydd ar 25 Mai; 29 Mai a 25 Mehefin 2010: 74 o filltiroedd @ 50.1c y/f: **£37.07** siec 999
- 2852 **GDYT** hurio ystafell ar gyfer Cyfarfod y Cyngor 22.06.10: **£10** siec
Nodwyd y Penderfyniad Cynllunio canlynol
- 2853 **A100287** 11 Dolhelyg, Penrhyncoch – estyniad; Cymeradwywyd.
- 2854 **Os na fydd unrhyw fater brys yn codi cyn hynny, cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor ar ddydd Mawrth, 21 Medi, 2010 yn Ysgol Trefeurig am 7.00pm**
- 2855 **Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:**
Car wedi'i barcio yn rhwystr ar gyffordd, a gwrych yn crogi dros y ffordd ym Mhenbontrhydybeddau Ymyl y ffordd yn suddo rhwng Garej Cwrt a Tyn Cwm, Penrhyncoch
Daeth y Cyfarfod i ben am 8.55 pm